# CYNGOR TREF PORTHMADOG

**Pwyllgor Eiddo a Datblygu**

**19.00 Nos Fawrth Tachwedd 25 2025**

**<u>COFNODION</u>**

**Presennol: Cynghorwyr:** Gwilym Jones (Cadeirydd), Karena Owens, Jeremy Davies, Alwyn Gruffydd, Edward Naish, Michael Roberts.
Elfyn Lewis (Clerc)

**Ymddiheuriadau: Cynghorwyr:** Dr. Melfyn Edwards, Carol Hayes.

**Absennol: Cynghorwyr:** Llywelyn Rhys. Glenda Murray.

1. **Cae Pawb:**

   **<u>Adroddiad ar Archwiliad Cae PawbTachwedd 2025:</u>**

   Presennol:- Cynghorwyr: Alwyn Gruffydd, Carol Hayes, Glenda Murray
   Elfyn Lewis (Clerc)
   Robin (darpar Gadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb).

   Cytunwyd bod y mwyafrif llethol o'r rhandiroedd mewn cyflwr da ac yn cael gofal arbennig drwy gydol y flwyddyn er mwyn sichrau bod y garddwyr yn cael cynnyrch yn yr Haf a'r Gaeaf.

   Nid oedd pryder am unrhyw un o'r plotiau. Roedd un o'r tenantiaid, Hannah Streeter, wedi gofyn am cael ei heithro o'r archwiliad oherwydd anhwylder. Cytynwyd i'r cais yma yng nghyfarfod Mis Hydref o'r Cyngor Tre. Roedd tenantiaid dau o'r plotiau eraill wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Roedd dau denant arall yn denantiaid newydd ac ond wedi dechrau cael trefn ar eu plotiau yn y misoedd diwethaf.

   Trafodwyd yn anffurfiol nad oedd Mis Tachwedd yn fis delfrydol i gynnal archwiliad o'r rhandiroedd. Yn enwedig eleni oherwydd y tywydd garw a'r glaw di-baid. Roedd rhai o'r garddwyr wedi mynegi ei bod wedi bod yn anodd mynd i'r gerddi o'r herwydd. Bu sawl un o'r plotiau o dan ddwr am ddyddiau.
   Gofynnodd Robin (darpar Cadeirydd Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb) ar ran y garddwyr tybed a oedd hi yn bosib i newid yr archwiliad yn yr hydref i fis arall megis Awst neu Medi? A symud archwiliad yn y Gwanwyn i fis Mawrth neu Ebrill yn hytrach na mis Mai?

   Mae'r plotiau i gyd gyda tenantiaid arnynt a mae 11 o bobl ar y rhestr aros.

   Mi fydd biliau 2026 yn mynd i'r tenantiaid cyn diwedd y flwyddyn. Y gost am y flwyddyn yn £25 y plot gyda £3 mesul plot yn mynd i Gymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb i dalu am y gost o dorri gwair).

2. **Llwybrau:**
Roedd Dr. Melfyn Edwards wedi codi pryder am lwybr Cae Llety ym Morth-y-Gest a wedi gofyn i'r Clarc gysylltu a Chyngor Gwynedd i drafod y mater. Roedd y Clerc wedi adrodd i Gyngor Gwynedd bod moch yn troi'r llwybr yn fwd ac yn ei wneud yn anodd i'w gerdded ond heb gael ymateb.
Gofynnodd Y Cyng. Jeremy Davies i'r Clarc yrru manylion y llwybrau mae Cyngor Tre Porthmadog yn gyfrifol amdanynt a manylion am trefniadau torri gwair. Cytunwyd bod y Clarc yn gyrru y manylion i'r cynghorwyr.

3. **Cae Bodawen:**
Mi roedd Y Cyng. Jeremy Davies wedi holi petai hi yn bosib i ail-leoli peth o'r offer chwarae o Gae Bodawen i unai Borth-y-Gest neu i Glwb Chwaraeon Madog ond ym marn Cyngor Gwynedd a G.L.Jones Bethesda nid oedd yr offer yn addas i'w ail-leoli.
Nid oedd diweddariad am pa bryd yr oedd y Grid Cenedlaethol am ddechrau ar y gwaith yn Cae Chwarae Bodawen. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu a'r cwmni am ddiweddariad.

4. **Bryn Coffa:**
Rota glanhau Bryn Coffa am y deufis nesa:
Rhagfyr – Jeremy Davies
Ionawr – Elfyn Lewis (Clerc).

5. **Llochesi Bws:**
Roedd lloches bws wrth y Steshon wedi ei drwsio gyda dau banel newydd.
Gofynwyd i'r Clerc gysylltu gyda TrawsCymru er mwyn nodi bod angen logos newydd ar y lloches a mai ei cyfrifoldeb hwy yw hynny.
Gofynwyd i'r Clerc yrru rhestr o'r llochesi bws mae Cyngor Tref Porthmadog yn gyfrifol amdanynt i'r cynghorwyr.

6. **Cerflun Mr Madocks:**
Dim i'w adrodd.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.30

Elfyn Lewis (Clerc) 28/11/2025

*Elfyn Lewis (Clerc),39 Heol Fadog, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9BU*

*Ffôn: 01766 514210*

*E-bost: clerccyngtreport@gmail.com*